# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Cyncoed**

**Sunrise Of Cardiff**
**127 Heol Cyncoed**
**Caerdydd**
**CF23 6AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Cyncoed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Care UK Community Partnerships Ltd a WELL Cardiff Opco Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 99 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 a 10 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Llys Cyncoed yn darparu gofal a chymorth o safon ragorol i'r bobl. Mae'r unigolion wrth wraidd y ddarpariaeth gofal ac mae'r staff gofal a'r tîm rheoli yn mynd yr ail filltir i rymuso unigolion i fyw bywyd boddhaus. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol y gwasanaeth yn fawr, gan nodi, "*I love being here*", "*Its excellent living here*", ac "*it's a fantastic place to live"*. Gwelsom sawl enghraifft fod y bobl yn cyflawni llesiant gwell am eu bod wedi symud i'r gwasanaeth. Gwelsom fod y cymorth a ddarperir yn ystyrlon ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth, yn eu ffyrdd dewisol, ar gyflymder ac amlder sy'n diwallu eu hanghenion, gan dîm o staff cyson ac ymroddedig y maent yn hoff ohonynt ac sy'n gyfarwydd iddynt. Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl eu hybu.

Mae amgylchedd y cartref o safon ragorol a chaiff yr awyrgylch ei disgrifio fel "*gwesty 5 seren*" i'r rhai sy'n byw yno. Mae tîm arwain a rheoli ymroddedig, gwybodus ac arloesol yn arwain drwy esiampl yn Llys Cyncoed, sydd wedi llwyddo i sicrhau diwylliant cadarnhaol yn y cartref. Ymgynghorir â'r bobl yn llawn, ac mae'r gwasanaeth yn myfyrio'n barhaus ac yn esblygu i wella gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith i lywio'r staff yn ogystal â systemau llywodraethu a goruchwylio rhagorol.

Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth yn fawr, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel a'u monitro ac maent yn ymgymryd â hyfforddiant o ansawdd da er mwyn sicrhau eu bod yn deall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r Gymraeg yn cael ei hybu mewn ffordd ragweithiol yn y gwasanaeth ymysg y staff gofal sy'n siarad Cymraeg.

## Llesiant

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn, mae ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth a gallant fyw eu bywydau yn egnïol o ddydd i ddydd. Gofynnodd un person i ni gwrdd â'i gath anwes a oedd wedi symud i mewn hefyd a chawsom wahoddiad gan bobl eraill i eistedd i lawr ac ymuno â nhw i fwyta cinio. Caiff y bobl gefnogaeth lawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, a chânt eu hannog i fod yn annibynnol. Gwelsom fod y staff a'r tîm rheoli yn ymrwymedig ac yn ymroddedig ac yn cydweithio'n llwyddiannus i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r bobl. Mae ymdeimlad gwirioneddol o waith tîm ac undod o fewn y staff, gyda systemau cyfathrebu rhagorol ar waith. Mae cymorth gan y personél gofalu yn helpu unigolion, ymwelwyr a staff i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan ddarparu profiad cyfannol a didrafferth i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dywedodd cynrychiolwyr nifer o'r bobl a'r staff gofal wrthym y byddent yn dewis y cartref gofal hwn iddynt hwy eu hunain pe byddent fyth ei angen, ei fod yn rhywle y byddent yn ei argymell a'i fod yn rhywle y maent yn gwirfoddoli ynddo neu yn parhau i weithio yno oherwydd "*that's how wonderful it is*". Dywedwyd wrthym, "it's *something rewarding …* I *am very proud to be a part of the team here and to make a difference*", "*we are like a family here*" ac *"I will continue to recommend Llys Cyncoed to people. It is a good place to live and work*". Dywedodd un unigolyn wrthym, "*It's a great community feel, and my relatives say when they come, they'd love to live here".*

Mae gan y bobl lais a chaiff eu barn a'u dymuniadau eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo. Mae gan y gwasanaeth barch mawr am farn y bobl ac mae'n gwerthfawrogi'r adborth am y gwasanaeth. Gofynnir am farn ac awgrymiadau a gweithredir arnynt mewn cyfarfodydd i breswylwyr a gaiff eu cynnal yn rheolaidd a thrwy sefydlu Cyngor y Preswylwyr, lle roedd aelodau o'r teulu yn bresennol gydag aelodau o'r uwch-dîm rheoli. Mae'r adolygiadau, cyfarfodydd a'r adborth yn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Mae'r bobl yn cael dewisiadau o ran y ffordd y maent yn dymuno cael gofal a chymorth. Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn, ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae gan bobl reolaeth dros eu gofal a chânt eu cynnwys mewn materion sy'n effeithio arnynt yn gyson.

Caiff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yn nhermau gofynion ieithyddol ac ysbrydol y bobl, eu hyrwyddo ac mae ystafell weddïo ar gael i unigolion a'r staff ei defnyddio. Mae Llys Cyncoed yn darparu Cynnig Rhagweithiol llawn ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gan gynnwys aelodau o'r tîm rheoli, a gall y bobl eu nodi yn rhwydd gan eu bod yn gwisgo bathodynnau adnabod Cymraeg. Caiff digwyddiadau eu cynnal i ddathlu diwylliant Cymru a chaiff gweithgareddau eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arwyddion a'r dogfennau yn ddwyieithog, gan gynnwys yr opsiynau prydau bwyd dyddiol. Caiff dewis iaith gyntaf y bobl ei chofnodi yn eu cofnodion gofal, a gall y staff gofal ysgrifennu dogfennau gofal yn Gymraeg.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r bobl hefyd yn gwybod sut i godi pryderon os oes angen, ac mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r camau gweithredu

sydd angen eu cymryd os byddent yn amau bod person yn wynebu risg o niwed neu gamdriniaeth ac yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gweithredu ac yn ei ddatrys.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom gydberthnasau ystyrlon rhwng y bobl a'r staff gofal ac roedd y cydberthnasau hynny yn cael eu gwerthfawrogi. Rhoddodd y bobl a'r perthnasau adborth rhagorol i ni am y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un person nad oedd ei berthynas yn "*not just a resident…a person loved and cared for by everyone that works here*". Dywedodd perthnasau eraill, *"It's the best place my mother could have spent the last years of her life, with care, happiness and so much love, its where I would want to be if I found myself in this position of needing a care home.", "it feels more like a hotel than a care home", "staff go above and beyond".* Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"It's a fantastic place to live. Years ago… I read about it and that's how I got to know so I kept it cut out and put it safe and when it came to needing support, I pulled it out and got in touch…as soon as I came in I knew it was for me and I haven't been disappointed, I'm very happy here".*

Caiff y bobl eu hintegreiddio'n gymdeithasol a gallant fod yn rhan o'u cymuned leol. Gwnaethom ddarllen rhaglenni gweithgareddau dyddiol ac wythnosol sy'n llawn ac wedi'u teilwra at yr unigolion. Gwelsom amrywiaeth o weithgareddau, fel teithiau dydd, dathliadau pen-blwydd ac addurniadau a bwydlenni yn seiliedig ar themâu yn ystod yr ymweliad. Dywedodd nifer o bobl wrthym eu bod wedi mwynhau gwylio perfformiad gan blant o'r ysgol leol a oedd yn ymweld â'r cartref yn ystod y bore a'u bod yn edrych ymlaen at wylio'r canwr a'r perfformiad yn hwyrach yn y prynhawn. Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl sy'n wynebu risg o fod yn ynysig yn gymdeithasol yn cael gweithgareddau un i un yn rheolaidd, er enghraifft, gwelsom fod un person yn cael therapi tylino therapiwtig a elwir yn Namaste. Caiff y bobl eu cefnogi'n llawn i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u cydberthnasau personol sy'n bwysig iddynt. Caiff teuluoedd y bobl eu gwahodd i ymuno â'u hanwyliaid i gael prydau bwyd yn yr ystafell fwyta wedi'u gweini gan y tîm arlwyo, ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu a'u ffrindiau sy'n byw ymhellach i ffwrdd dros alwadau fideo.

Mae'r bobl yn cael gofal o safon gyson uchel gan staff medrus a llawn cymhelliant sy'n gweithredu mewn modd proffesiynol. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau cadarn gyda'r staff ac mae ganddynt hyder yn eu gwybodaeth a'u galluedd. Cafodd y cartref ei ddisgrifio gan un perthynas gan ddweud, *"There is much more to it that makes it wonderful place to place any loved one in. It's the core of it which is the staff. They are the most genuine loving and caring people that I have met from management concierge to carers and every other department… The residents are treated with respect. There are games, outings, dancing, birthday celebrations, what more could anyone ask for!"*

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir cyn gynted â phosibl. Mae'r cynlluniau personol a'r adolygiadau misol yn fanwl iawn ac yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol am anghenion gofal y bobl a'r ffordd y dylai'r staff gofal gefnogi pob person. Gwnaethom

ddarllen dogfennau gofal rhagorol a chynhwysfawr am y bobl a oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau ac wedi'u cwblhau i safon uchel. Caiff y bobl eu monitro'n drylwyr pan fo angen, ac mae'r staff gofal yn ymateb i anghenion y bobl a'u gofynion yn ddi-oed, cyn gynted â phosibl. Gwelsom fod nifer o aelodau o'r staff yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad dirybudd ac ymatebir i anghenion y bobl a'u gofynion yn brydlon, heb unrhyw oedi. Caiff bwyd a diodydd y bobl eu monitro a chânt eu hannog i fwyta ac yfed pan fo angen. Mae trefniadau meddyginiaethau diogel ar waith. Caiff y cogydd a'r tîm arlwyo eu cynnwys mewn adolygiadau o ddewisiadau ac anghenion deietegol newidiol y bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y maeth cywir, gan sicrhau bod prosesau cyfathrebu rhagorol ar waith rhwng y tîm lletygarwch a'r tîm rheoli. Mae'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y gwasanaeth yn ardderchog. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, *“proactive management team, communication excellent…good working relationship…really nice and friendly, patients always looked after by friendly staff”.*

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn olau, yn groesawgar, yn eithriadol o lân ac wedi'i gyflwyno'n dda iawn. Mae systemau ar waith i sicrhau bod lefelau rhagorol o waith cynnal a chadw, gwaith cadw tŷ ac iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal. Cawsom ein croesawu gan ofalwyr caredig wrth gyrraedd y cartref, a gwelsom siandelïers gwydrau, gwaith celf ar y waliau a dodrefn chwaethus o ansawdd da. Mae'r coridorau yn llydan ac yn fawr. Mae ardaloedd cymunedol amrywiol i'r bobl ddewis ohonynt sydd wedi'u cyflwyno'n dda iawn ac mae'r ystafelloedd gwely yn unigryw i'r unigolyn. Gwneir unrhyw waith atgyweirio i wella'r cartref ar unwaith. Mae'r staff domestig a'r staff cynnal a chadw yn gweithio'n galed i sicrhau bod y safonau yn y cartref yn cael eu cyrraedd a'u bod yn rhagori arnynt. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*If it doesn't work for our residents we change it, all departments get involved in everything.*"

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfleusterau ar gael yn y cartref, fel salon trin gwallt, tafarn gydag ysgwydydd coctel ac amrywiaeth o ardaloedd yn yr ardd, gan gynnwys ardal i dyfu perlysiau gyda nodweddion dŵr. Ar y llawr cyntaf, mae ardal falconi sydd wedi'i gwneud yn ddiogel er mwyn i'r bobl fwynhau golygfa wledig o'r gerddi. Gall y bobl fwynhau'r ystafell ymlacio synhwyraidd, golau isel ar gyfer therapïau cyfannol.

Gwelsom brofiad bwyta o safon uchel gyda byrddau bwyta ac addurniadau wedi'u trefnu'n hyfryd. Caiff y bobl gynnig y dewis o winoedd i gyd-fynd â'u prydau bwyd a gwelsom fwydlenni a oedd wedi'u teilwra at yr unigolion er mwyn ymuno â dathliadau cenedlaethol y diwrnod hwnnw. Gwelsom amrywiaeth o fwydlenni gydag opsiynau a dewisiadau amgen o ansawdd da. Gwelsom fod amrywiaeth o fyrbrydau a diodydd ar gael yn y bwffe helpu eich hunain yn ystod y dydd, rhwng prydau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"The dining experience is like a 5-star service and we honestly feel so proud of whole home approach nothing is too much for anyone".*

Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i rannu eu diddordebau ag eraill, sy'n cael eu hadlewyrchu yn yr amgylchedd. Mae amrywiaeth o ardaloedd gweithgareddau sydd wedi'u teilwra at unigolion yn unol â diddordebau a hobïau'r bobl. Gwelsom fwrdd DIY gydag offer, ardal wau ac ardal gyda theipiadur wedi'u lleoli yn y coridorau cymunedol ar gyfer y rhai sy'n byw gerllaw sydd â diddordeb yn y gweithgareddau hyn.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae mesurau rheoli heintiau rhagorol ar waith. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr bod *"homely atmosphere and that it feels more like a hotel than a care home".* Dywedwyd wrthym hefyd,*"There is always someone on reception so you can always reach someone to ask anything", "I just*

*want to mention the warmth and friendliness of walking in to be greeted by concierge staff, it feels like one big family", "The ambience of Llys Cyncoed is amazing!".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael eu cefnogi gan dîm arwain a rheoli cryf sy'n gweithio ar y cyd ac sy'n rhoi llesiant y bobl wrth wraidd y penderfyniadau a wneir. Mae tîm arwain a rheoli yn gwneud eu gorau dros y bobl ac mae'r aelodau yn arloesol ac yn cymryd rhan ym mhrosesau dysgu arfer gorau gydag asiantaethau eraill. Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i archwilio ffyrdd o gynnwys y gymuned leol yn y cartref yn barhaus. Mae'r tîm rheoli yn trefnu cyfleoedd er mwyn dod â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynghyd, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd iddynt ddod i adnabod eu tîm rheoli, ond hefyd i roi cyfleoedd iddynt ryngweithio'n gymdeithasol.

Mae diwylliant agored cadarnhaol o ran y ddarpariaeth gwasanaeth, a gaiff ei lywio gan sail gwerthoedd y tîm rheoli. Caiff gweledigaeth a gwerthoedd y gwasanaeth eu rhoi ar waith gan bob aelod o'r staff. Mae gan yr uwch-dîm rheoli ddealltwriaeth dda o brofiadau dyddiol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gall y bobl gael gafael uniongyrchol ar yr uwch-dîm rheoli a chyfathrebu â'r aelodau. Mae polisi drws agored ar waith gan bob personél rheoli sydd wedi'i leoli yn y cartref. Gwelsom eu drysau ar agor yn ystod yr ymweliad arolygu a bod yr aelodau o'r tîm rheoli yn annog y bobl i fynd atynt ac i ymgysylltu â nhw.

Mae'r systemau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn gwneud yn siwr y caiff barn y bobl ei chasglu am ba mor fodlon ydynt â'r gwasanaeth a'r ffordd y gellir gwella pethau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn chwarae rhan weithgar ac maent yn bresennol, yn gefnogol ac yn gyfarwyddol yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal gwiriadau ac yn llunio adroddiadau rhagorol a chynhwysfawr ar ansawdd y gofal sy'n ddadansoddol, yn fyfyriol ac yn dangos ymdrechion parhaol i wella'r gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yn gymwys ac yn angerddol yn eu rolau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y tîm rheoli. Caiff gwiriadau recriwtio cadarn eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth ac mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant, cyfnod sefydlu a sesiynau goruchwylio. Mae'r holl adborth gan y staff yn gadarnhaol iawn, gyda nifer yn dweud wrthym:

"*Best place I have worked for, and I believe its because of management always wanting to do the best for staff and residents. Staff really are looked after very well.*"

"*I have been here for years for a reason, and it is currently the best it has ever been and I love being a part of that journey.*"

"*The staff genuinely care for the residents and it feels like a family*".

"*The teamwork in the home is excellent and staff are passionate about their roles. I feel part of a high-quality care home that gives exceptional care and dignity to each resident… Support from management is exceptional".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/08/2024